**CYNGOR CYMDEITHAS**
**LLANNERCH-Y-MEDD**
**COMMUNITY COUNCIL**

**23 Chwefror 2017**
**7:00pm**
**CYFARFOD LLAWN/ FULL MEETING**

## 1. Croeso ac Ymddiheuriadau

**Presennol:** GW(Cadeirio); JAJ;JJ;BJ;DL;TAJ; DAW;AR; DP

**Ymddiheuro**: EO;JOJ;RJ

**Yn mynychu:** JG; SWR

## 2. Datgan Diddordeb

Datganodd JJ ddiddordeb yn Eitem 8 Cyllid; JG yn Eitem 9 Cynllunio;

## 3. Cofnodion cyfarfod 12.01.17

Cyflwynwyd a chadarnhawyd cofnodion 12.01.17 (DAW/AR) yn unol â'r newidiadau canlynol:-

- Tynnu JJ oddi ar y rhestr 'presennol'
- JG heb ddatgan diddordeb yn Eitem 9 Cynllunio gan nad oedd yn bresennol

## 4. Materion yn Codi

Diweddarwyd y Cynllun Gweithredu i greu fersiwn – 23.02.17

### Ysgol Haearn

Cylchredodd JAJ y manylion cyllidol cyfredol sef balans o £51,798.77 ar 31.12.16. Mae £1417.69 yn y cyfrif banc, derbynnir £25 y mis o log ar gyfartaledd. Cytunwyd cynnal Is-bwyllgor Cyllid i drafod y ffordd ymlaen gyda'r cyfrif hwn a'r Ymddiriedolaeth Cae Gofeb. Clerc i weithredu.



Mrs Sydna Roberts sydnaroberts@btinternet.com
Clerc
Cyngor Cymdeithas Llannerchymedd
Bryn Odol
4 Bryncir
**LLANNERCH-Y-MEDD**
**Ynys Môn LL71 8EG** Ffôn: 01248 470383

## 5. Materion Cyffredinol - drwy'r Gadair

**AR -** mynegodd bryder am gyflwr y coed ger y Walk, yn arbennig yn dilyn y difrod ar ôl y storm ddiweddar. Cytunwyd I'r Clerc ofyn i CSYM wirio eu cyflwr. JAJ I wirio'r sefyllfa o gwmpas Cae Gofeb.

**DL –** cyfeiriodd at grantiau ar gyfer mannau chwarae. BJ i anfon y manylion at y Clerc.

**GW -** holodd am fodolaeth tystysgrif nwy ar gyfer y Caffi. Cytunwyd i GW drefnu gydag Owen Burgess rhag blaen.

## 6. Materion yr Heddlu

Croesawyd CSO Dan Dunbarton i'r cyfarfod a thrafodwyd y canlynol:-

- Awdi lliw arian gyda phlât cofrestr Gwyddelig ger Maes Cyhelyn
- Corsa du ger yr ysgol
- Goryrru drwy'r pentref. Adroddwyd bod arsylwi wedi bod ar y ffyrdd mewn i'r pentref a bod yr adroddiad yn cael ei hanfon ymlaen at Go Safe ac Adran Priffyrdd CSYM.
- Problem parcio ar Ffordd Caergybi wedi gwaethygu gyda faniau gwaith yn creu rhwystrau. Heddlu i drafod gyda CSYM
- Parcio ger Y Garth – Heddlu i wirio
- Rhwystr gweledol ger mynediad Maes Athen gan fod ceir yn parcio ar y pafin ger y Bull - Heddlu i wirio.
- Cyfeiriwyd at y ffaith bod CSYM yn ystyried cyflogi cwmni preifat i edrych ar sefyllfa parcio anghyfreithlon a baw cwm ayyb
- Heddlu wedi cytuno i drafod arwyddion goryrru ger Joint Houses a trwy Goedana gyda CSYM
- Adroddwyd ar achos o fandaleiddio yn yr ysgol gynradd dechrau'r wythnos. Nododd CSO bod ymholiadau yn mynd rhagddynt.

Diolchwyd i CSO Dunbarton am fynychu a chytunodd i adrodd yn ôl ar y pwyntiau uchod drwy'r Clerc.



Mrs Sydna Roberts sydnaroberts@btinternet.com
Clerc
Cyngor Cymdeithas Llannerchymedd
Bryn Odol
4 Bryncir
**LLANNERCH-Y-MEDD**
**Ynys Môn LL71 8EG** Ffôn: 01248 470383

## 7. Materion Safleoedd

**Rhandiroedd**

Nodwyd bod amcangyfrifon i law ers mis Ionawr a bod angen gwneud penderfyniad ar y ffordd ymlaen.  Cytunwyd I JAJ gysylltu â RPO Williams i ail-edrych ar y cais er mwyn cytuno ar ffordd ymlaen mewn dull cam wrth gam fydd yn fforddiadwy i CC LLan.  Clerc i ymchwilio i grantiau pwrpasol ar gyfer sefydlu Rhandiroedd.

## 8. Materion Cyllidol a Thaliadau

Adroddodd y Clerc ar sefyllfa ariannol gyfredol y Cyngor fel â chanlyn:-

| | £ |
|---|---|
| Cyfrif cyfredol | 2449.98 |
| Cyfrif wrth gefn | 476.30 |
| Cyfrif y Fynwent | 3611.41 |
| Cyfrif Eisteddfod Môn | 1102.75 |

Cytunwyd i dalu'r canlynol:-

| Ôl-daliadau:- | £ |
|---|---|
| Weed & Mow – chwynu a chlirio ger yr Eglwys | 157.50 |
| HJT Electricals - gwirio'r llifolau a gosod bwlb | 74.94 |

Taliadau heddiw:-
Scottish Power – CPD LLan £128.40 (Caffi D/D - £424.29)
Olew Môn – Caffi £430.40
Mrs Mairwen Jones Gofal Pentref Rhagfyr £108; Ionawr £132; Chwefror £108;
Nwy Prydai trydan Clwb Bowlio £23.34
Aelodaeth Unllais - £180
Swyddfa Archwilwyr Cymru - archwiliad allanol cyfrifon 2015-16 - £324.90

## 9. Materion Cynllunio

**CAIS 25C263, tir ger Eithinog Llannerchymedd**

Cyfeiriwyd at nifer o dai sydd wedi eu cymeradwyo fel 'in fill' - Lon Alwch, Ysgol Haearn a thu cefni'r Bull.  Cytunwyd yn unfrydol i gefnogi'r cais ar yr amod bod mynedfa i'r safle yn bodloni gofynion statudol Adran Priffyrdd CSYM.

**CAIS 25C55C – Pwll Gynnau Llannerchymedd**

Cytunwyd yn unfrydol i gefnogi'r cais .



Mrs Sydna Roberts sydnaroberts@btinternet.com
Clerc
Cyngor Cymdeithas Llannerchymedd
Bryn Odol
4 Bryncir
**LLANNERCH-Y-MEDD**
**Ynys Môn LL71 8EG** Ffôn: 01248 470383

Trafodwyd y posibilrwydd i wneud cais amlinellol ger safle Unedau tan y Foel. Credir mai cais diwydiannol sydd ar y tir ar hyn o bryd. Cytunodd y Clerc I holi CSYM.
Nododd y Clerc nad oedd wedi cael unrhyw ymholiad am ddefnyddio’r llain ger yr Unedau fel tir pori. Cytunodd JJ i drafod ymhellach gyda’r sawl sydd wedi dangos diddordeb.

## 10. Gohebiaeth Gyffredinol

Dim i law

*Daeth y cyfarfod i ben am 9.20*



Mrs Sydna Roberts sydnaroberts@btinternet.com
Clerc
Cyngor Cymdeithas Llannerchymedd
Bryn Odol
4 Bryncir
**LLANNERCH-Y-MEDD**
**Ynys Môn LL71 8EG** Ffôn: 01248 470383